

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales Fire and Rescue Service

# PECYN CAIS AM SWYDD

tancgc.gov.uk

# Cyflwyniad

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Fy ngweledigaeth yw i'n Gwasanaeth 'fod ymhlith y gorau yn y byd ym maes ymateb brys a diogelwch cymunedol.' Er bod gennym hanes balch o gyflawni, gwyddom fod lle i wella bob amser.

Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maent yn tueddu i feddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.

Y tu ôl i'r staff gweithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill o fewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli yn y swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn rolau proffesiynol, technegol a gweinyddol.

Heb swyddogaethau cymorth corfforaethol ar waith i ddarparu'r systemau, y prosesau a'r dechnoleg, ni fyddai'r Gwasanaeth yn gallu darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cymunedau.

Os ydych chi'n chwilio am yrfa gydag amrywiaeth, her a chyfleoedd i symud ymlaen, ynghyd â'r holl fuddion y byddech chi'n eu disgwyl gan sefydliad gwasanaeth cyhoeddus allweddol, beth am ystyried ymuno â ni yn un o'n swyddogaethau cymorth arbenigol neu weinyddol?

Diolch yn fawr a phob lwc





Roger Thomas
Prif Swyddog Tân, *Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig*



Pecyn Cais am Swydd

Our Vision:

**To be a World Leader in Emergency Response and Community Safety**


Our Mission:

**To Engage, Connect, Develop and Inspire people to deliver an excellent Service**

Our Values:

- **Do the Right Thing**
- **Treat People with Respect**
- **Perform with Excellence**

# Ynglŷn â'r Gwasanaeth




Crëwyd y Gwasanaeth ym 1996 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn dilyn uno Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwasanaethu'r ardaloedd Cyngor Sir canlynol:

Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu dros bron i ddwy ran o dair o Gymru, gan wasanaethu ardal wledig yn bennaf o 11,700 km² (4,500 milltir sgwâr), gyda 650km o arfordir. Gyda'i Bencadlys yng Nghaerfyrddin, mae'r Gwasanaeth yn cyflogi 1300 o staff, gydag ychydig dros 1100 o'r rheini wedi'u lleoli mewn un o 58 o orsafoedd ar draws tri Rhanbarth. Mae'r Gwasanaeth yn gwasanaethu'r ardal sydd â'r teneurwydd poblogaeth trydydd uchaf yng Nghymru a Lloegr ac mae 900,000 o bobl yn byw yn ein hardal. Mae'r nifer hwn yn cynyddu i dros 2 filiwn o ganlyniad i dwristiaeth dros fisoedd yr haf.

Dyma'r trydydd Gwasanaeth Tân ac Achub mwyaf yn ddaearyddol yn y Deyrnas Unedig, y tu ôl i Wasanaethau Tân ac Achub yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn ynddo'i hun yn cyflwyno amrywiaeth o heriau gwahanol.

Ceir amrywiaeth o risgiau yn ardal y Gwasanaeth, gan amrywio o'r diwydiannau petrocemegol yn Aberdaugleddau, i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog iawn fel Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae yna hefyd gymuned ffermio fawr a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ledled yr ardal.

Mae'r rhain, ynghyd ag arfordir helaeth a dyfrffyrdd mewndirol, yn creu rhai o'r risgiau arbenigol a geir o fewn ardal y Gwasanaeth.

with a population of
**910,000**
living in
**431,500**
households

we run
**58**
fire stations
with
**1333**
staff

- **393** Wholetime Firefighters
- **702** On-Call Firefighters
- **23** Joint Fire Control Staff
- **215** Support Staff

# Buddion

Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion a all wella eich ffordd o fyw nawr ac yn y dyfodol.

### Cyfraddau tâl cystadleuol -
a adolygwyd yn ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol i frig eich band cyflog, wrth i chi gronni gwybodaeth a phrofiad.

### Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol -
Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.2% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion trwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).

### Gwyliau blynyddol hael –
26 diwrnod yn ogystal â gwyliau banc, gan gynyddu i 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.

### Cynllun Hyblyg –
Cyfle i addasu eich oriau gwaith i helpu i ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.

Parcio am ddim ar y safle

Beicio i'r Gwaith

Cynllun Gostyngiad Staff

Iechyd a Lles

- Cynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Prydlesu Ceir drwy Aberthu Cyflog
- Cynllun Benthyg Offer TG Let's Connect
- Cyfleusterau ffreutur â phrisiau is
- Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol
- Elusen y Diffoddwyr Tân

# Amgylchedd Gwaith yn seiliedig ar ein Gwerthoedd

**Ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth -**

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd yr hyn a wnawn fel Gwasanaeth ac maent yn werthoedd sydd wrth wraidd ein prosesau, ein harferion a'n diwylliant sefydliadol.

Fel gwasanaeth, rydym wedi ymrwymo i nodi, deall a dileu'r holl rwystrau sy'n atal mynediad at wasanaethau, gwybodaeth a chyflogaeth.

Ar hyn o bryd mae gan y Gwasanaeth nifer fach o rwydweithiau / fforymau gweithwyr mewnol, sy'n chwarae rhan weithredol mewn:

- Hyrwyddo materion ar gyfer gweithwyr;
- Cyfrannu at agenda amrywiaeth a chynhwysiant y sefydliad;
- Cynghori ar ddatblygu polisïau;
- Gwella'r amgylchedd gwaith i weithwyr

committed to reducing our environmental impact

**Ymrwymiad i leihau ein Heffaith Amgylcheddol -**

Rydym yn cydnabod bod ein gweithrediadau yn cael effaith ar yr amgylchedd byd-eang a lleol ac rydym wedi ymrwymo i leihau effeithiau amgylcheddol andwyol o fewn cyfyngiadau ariannol, gweithredol ac adnoddau.

Yn ein hymgyrch i sicrhau Statws Carbon Sero Net erbyn 2030, mae'r Gwasanaeth wedi gosod targedau iddo'i hun sy'n cyd-fynd â map llwybr Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Gwasanaeth wedi cyflawni achrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Lefel 5 am yr 8fed flwyddyn yn olynol.

**#CARBONZERO30**

# Proffil y Swydd

Cyflog: £31,067-£32,654…………………..

Yr Adran Diogelwch Cymunedol, wedi'i lleoli yn Hwb Llandrindod

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn chwilio am geisiadau gan unigolion ar gyfer rôl Cydlynydd Diogelwch Cymunedol parhaol yn yr adran Diogelwch Cymunedol sydd wedi'i lleoli yn Hwb Llandrindod

Y Swydd
Bydd deilydd y swydd yn gweithredu fel Ymarferydd Diogelwch Cymunedol gyda chyfrifoldebau ychwanegol o ddarparu cymorth Sicrhau Ansawdd, Hyfforddiant, Gweinyddiaeth, Partneriaeth o fewn Timau Diogelwch Cymunedol Adrannol. Cefnogi diogelwch cymunedol a phersonél gweithredol trwy roi cyngor a hyfforddiant mewn perthynas â chyflwyno gweithgareddau diogelwch cymunedol. Yn ogystal, rheoli a sicrhau bod offer diogelwch cymunedol a ddyrannwyd i'w his-adran briodol yn cael eu cynnal a'u cadw, a sicrhau bod y ddarpariaethau Iechyd a Diogelwch perthnasol a'r Gorchmynion Gwasanaeth sy'n llywodraethu defnyddio'r eitemau hyn yn cael eu bodloni.

Mae'r swydd hon yn un llawn amser, a bydd deiliad y swydd yn gweithio 37 awr yr wythnos gydag oriau hyblyg yn unol â chynllun oriau hyblyg y Gwasanaeth.

# Swydd-ddisgrifiad

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Cydlynydd Diogelwch Cymunedol |
| **RHENG/RÔL** | Graddfa 6 |
| **CYFEIRNOD Y SWYDD:** | |
| **LLEOLIAD:** | Yr Adran Diogelwch Cymunedol, wedi'i lleoli yn Hwb Llandrindod |
| **YN ATEBOL I:** | Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol Rhanbarthol |
| **PRIF BWRPAS Y RÔL:** | Gweithredu fel Ymarferydd Diogelwch Cymunedol gyda chyfrifoldebau ychwanegol o ddarparu Sicrwydd Ansawdd, Hyfforddiant, Gweinyddu, Cymorth partneriaeth o fewn Timau Diogelwch Cymunedol Rhanbarthol |

| RHESTR O GYFRIFOLDEBAU | YN ATEBOL I |
|---|---|
| 1. Cefnogi diogelwch cymunedol a phersonél gweithredol trwy ddarparu cyngor a hyfforddiant mewn perthynas â darparu gweithgareddau diogelwch cymunedol. | Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol |
| 2. Rheoli a sicrhau cynnal a chadw offer diogelwch cymunedol a ddyrannwyd i'w Rhanbarth priodol. Sicrhau bod y darpariaethau Iechyd a Diogelwch a'r Gorchmynion Gwasanaeth perthnasol sy'n rheoli'r defnydd o'r eitemau hyn yn cael eu bodloni. | Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol |
| 3. Cynorthwyo gyda'r broses Sicrhau Ansawdd o fewn y tîm rhanbarthol. | Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol/Ymarferydd Arweiniol |
| 4. Monitro sut mae gweithgareddau Diogelwch Cymunedol yn cael eu cofnodi ar y feddalwedd briodol. Bydd hyn yn cynnwys cofnodi atgyfeiriadau at bartneriaid. Paratoi adroddiadau lle bo angen i gynorthwyo gyda rheoli perfformiad. | Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol/Ymarferydd Arweiniol |
| 5. Cynorthwyo i ymgorffori aelodau tîm sydd newydd eu penodi i'r Adran Diogelwch Cymunedol. | Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol/Ymarferydd Arweiniol |
| 6. Darparu gweithgareddau diogelwch cymunedol craidd. Disgwylir hyblygrwydd rhesymol mewn oriau gwaith i gwrdd ag anghenion amrywiol y Gwasanaeth. Gall hyn gynnwys gweithio gyda'r nos, ar benwythnosau, a Gwyliau Cyhoeddus, pan geir taliad y cytunwyd arno neu amser yn ei le. | Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol/Ymarferydd Arweiniol |
| 7. Trefnu sicrwydd cydnerthedd ar gyfer Rhif Diogelwch Tân yn y Cartref | Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol/Ymarferydd Arweiniol |

| | |
|---|---|
| 8. Cynorthwyo Ymarferwyr DC i gyfeirio achosion cymhleth at asiantaethau / timau arbenigol. | Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol/Ymarferydd Arweiniol |
| 9. Cynorthwyo gyda gweithio mewn partneriaeth o fewn y rhanbarth | Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol/Ymarferydd Arweiniol |
| 10. Cynorthwyo'r tîm arweinyddiaeth rhanbarthol wrth ddirprwyo tasgau (atgyfeiriadau / e-byst /swyddi heb eu cwblhau ar y System Wybodaeth Rheoli Risg Tân Cymunedol (CFRMIS)). | Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol/Ymarferydd Arweiniol |
| *11.* Ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc, oedolion sy'n agored i niwed yn y cymunedau ehangach drwy roi gwybod am bryderon i Swyddog Diogelu a / neu Tîm Diogelu'r Gwasanaeth. | Ymarferydd Arweiniol Diogelwch Cymunedol |
| 12. Ymarfer a hyrwyddo polisïau iechyd a diogelwch y Gwasanaeth o fewn maes cyfrifoldeb y swydd-ddisgrifiad hwn. | Rheolwr Gwylfa Rhanbarthol |
| 13. Ymgymryd â Gwella Diogelwch a chynorthwyo'r tîm Atal Llosgi Bwriadol wrth gyflwyno a hyrwyddo mentrau i atal Llosgi Bwriadol. | Rheolwr Gwylfa Rhanbarthol |

# Manyleb y Person

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Cydlynydd Diogelwch Cymunedol |
| **LLEOLIAD:** | Yr Adran Diogelwch Cymunedol, wedi'i lleoli yn Hwb Llandrindod |
| **GRADD:** | Gradd 6 |
| **ADRAN:** | Lleihau Risg Cymunedol, Diogelwch Cymunedol |

| CYMWYSTERAU/HYFFORDDIANT GALWEDIGAETHOL/CYMWYSEDDAU | HANFODOL | DYMUNOL | ASESU |
|---|---|---|---|
| 1. Diogelwch Cymunedol Lefel 3 priodol a / neu brofiad priodol. | ✓ | | Ffurflen gais |
| 2. Trwydded Yrru Gyfredol | ✓ | | Ffurflen gais |

**GWYBODAETH**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gwasanaethau Diogelwch Cymunedol a ddarperir o fewn y Rhanbarth/Gwasanaeth | ✓ | | Ffurflen gais a Chyfweliad |
| 4. Gwybodaeth am wasanaethau TG ar draws y Gwasanaeth. | ✓ | | Ffurflen gais a Chyfweliad |
| 5. Gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y gymuned | ✓ | | Ffurflen gais a Chyfweliad |
| 6. Gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl dirprwyo tasgau | ✓ | | Ffurflen gais a Chyfweliad |
| 7. Gwybodaeth a dealltwriaeth o brosesau sicrhau ansawdd yn y gwasanaeth | | ✓ | Ffurflen gais a Chyfweliad |

## PROFIAD

| | HANFODOL | DYMUNOL | ASESU |
|---|---|---|---|
| 8. Y gallu i weithio'n effeithiol ar eich liwt eich hun yn ogystal ag yn rhan o dîm gan gynnwys ar draws sefydliadau partneriaeth | ✓ | | Ffurflen gais a Chyfweliad |
| 9. Profiad o gynhyrchu, a chynnal cofnodion ac adroddiadau | ✓ | | Ffurflen gais a Chyfweliad |
| 10. Profiad mewn rôl debyg o fewn y swyddogaeth Diogelwch Cymunedol. | ✓ | | Ffurflen gais a Chyfweliad |
| 11. Profiad o gynorthwyo i ddirprwyo tasgau ac adrodd ar ganlyniadau i'r rheolwr llinell | | ✓ | Ffurflen gais a Chyfweliad |

## SGILIAU PERSONOL / SY'N GYSYLLTIEDIG Â'R SWYDD

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12. Y gallu i weithio o dan bwysau i derfynau amser tyn | ✓ | | Ffurflen gais a Chyfweliad |
| 13. Ymagwedd frwdfrydig ac ymroddedig at ddarparu gwasanaeth o ansawdd | ✓ | | Ffurflen gais a Chyfweliad |
| 14. Profiad o gyfarch a chyflwyno i grwpiau ac unigolion | ✓ | | Ffurflen gais a Chyfweliad |
| 15. Y gallu i weithio'n dda mewn timau. | ✓ | | Ffurflen gais a Chyfweliad |

## SGILIAU CYFATHREBU

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16. Sgiliau llafar ac ysgrifenedig Saesneg | ✓ | | Ffurflen gais a Chyfweliad |
| 17. Sgiliau llafar ac ysgrifenedig Cymraeg Lefel 3 (ar y lefel hon o fewn 24 mis i'r penodiad) | ✓ | | Ffurflen gais a Chyfweliad |
| 18. Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu da ar bob lefel | ✓ | | Ffurflen gais a Chyfweliad |

**Yn unol â gweithdrefn Recriwtio a Dethol y Gwasanaeth, mae angen datgeliad sylfaenol o leiaf ar gyfer pob rôl.**

**Bydd rhai rolau yn destun lefelau manylach o wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn dibynnu ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl, ac fel y'u dynodir gan y Pennaeth Ardal Reoli neu Adran perthnasol.**

**Lle nodir gofyniad am lefel fanylach o wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, nodir y lefel a'r cyfiawnhad dros hyn isod:**

**LEFEL: 1**

**CYFIAWNHAD:**..............................................................................................................................

**PARATOWYD GAN:**

**DYDDIAD ADOLYGIAD:**

# Sut i Ymgeisio

Dyddiad Cau: Awst 7 am 4.30yp

Mae'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen gais yn wybodaeth allweddol a fydd yn cael ei defnyddio yn y broses llunio rhestr fer. Felly mae'n bwysig dilyn y nodiadau cyfarwyddyd isod wrth lenwi'r ffurflen gais. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael i wneud penderfyniad ynghylch a fyddwch ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad. Bydd llunio rhestr fer yn cynnwys asesu'r manylion a ddarperir ar y ffurflen gais yn erbyn y meini prawf a amlinellir ym Manyleb y Person a ddarparwyd.

Derbynnir ceisiadau mewn fformatau eraill pan fydd ymgeisydd yn cael anhawster llenwi'r ffurflen safonol o ganlyniad i anabledd.

## Beth sy'n digwydd ar ôl i chi anfon eich cais?

Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, byddwn yn gwahanu'r ffurflen monitro cyfle cyfartal, na fydd yn rhan o'r broses ddethol, a dim ond y ffurflen gais a anfonir at yr adran llunio rhestr fer. Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth derbyn cais at bob ymgeisydd.

Yna bydd eich cais yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf (mewn manyleb person) a bydd y panel llunio rhestr fer yn penderfynu a ellir ei roi ar y rhestr fer.

Os nad ydych ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, fe'ch cynghorir yn ysgrifenedig, fel arfer o fewn chwe wythnos i'r dyddiad cau. Os nad ydych wedi clywed gennym erbyn hynny, cysylltwch â ni.

Os byddwch ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, byddwch fel arfer yn cael e-bost gennym o fewn 2 -3 wythnos i'r dyddiad cau, yn nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfweliad. Bydd yr e-bost hefyd yn cynnwys manylion am brofion asesu sydd i'w cynnal a bydd yn cynnwys y ddogfennaeth y mae'n ofynnol i chi ddod gyda chi, os yw'n berthnasol i'r rôl.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

www.tancgc.gov.uk/cym/